



Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Adroddiad ar

**Ysgol Meidrim
Meidrim
Sir Gaerfyrddin
SA33 5QN**

Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2016

gan

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

Barn	Yr hyn mae'r farn yn ei olygu
Rhagorol	Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector
Da	Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol
Digonol	Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella
Anfoddhaol	Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor, Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:

www.estyn.llyw.cymru

© Hawlfraint y Goron 2016: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 31/08/2016

Cyd-destun

Mae Ysgol Gynradd Meidrim yng nghanol y pentref ac yn cael ei chynnal gan awdurdod lleol sir Gaerfyrddin. Mae 23 o ddisgyblion rhwng 3 ac 11 oed, gan gynnwys pedwar plentyn meithrin, ar y gofrestr a chânt eu haddysgu mewn dau ddsbarth.

Nid oes yr un plentyn â hawl i gael prydau ysgol am ddim. Mae tua 32% o'r disgyblion ar y gofrestr anghenion dysgu ychwanegol, ac ychydig iawn sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig. Tua 30% o'r disgyblion sy'n dod o gartrefi lle y siaredir y Gymraeg. Nid oes disgyblion sydd â'r Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt ac nid oes yr un disgybl yn dod o gefndir lleiafrif ethnig

Cychwynnodd y pennaeth presennol yn ei swydd ym mis Medi 2015 pan ddaeth yr ysgol yn rhan o ffederasiwn anffurfiol o dair ysgol. Cafodd yr ysgol ei harolygu ddiwethaf yn Nhachwedd 2010.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Meidrim yn 2015-2016 yw £7,311. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion cynradd yn Sir Gaerfyrddin yw £8,382 a'r lleiafswm yw £3,111. Mae Ysgol Gynradd Meidrim yn y pedwerydd safle o'r 101 ysgol gynradd yn Sir Gaerfyrddin o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

Crynodeb

Perfformiad presennol yr ysgol	Digonol
Rhagolygon gwella'r ysgol	Digonol

Perfformiad presennol

Mae perfformiad yr ysgol yn ddigonol oherwydd bod:

- llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd buddiol yn ystod eu hamser yn yr ysgol
- medrau siarad a gwrandio llawer o'r disgyblion yn dda
- medrau llythrennedd Saesneg llawer o'r disgyblion yn effeithiol
- ymwybyddiaeth disgyblion o bwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach yn dda
- gwaith tîm pwrpasol rhwng yr holl staff yn sicrhau amgylchedd dysgu sy'n gefnogol ac ysgogol
- athrawon yn adnabod eu disgyblion yn dda, ac yn cynllunio gweithgareddau diddorol sy'n ennyn eu diddordeb yn effeithiol
- disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da yn erbyn eu targedau
- disgyblion yn gwrtais ac yn ymddwyn yn dda
- gan y rhan fwyaf o ddisgyblion agweddu cadarnhaol tuag at ddysgu
- lefelau presenoldeb y disgyblion yn uchel
- yr ysgol yn gymuned gynhwysol

Fodd bynnag:

- nid yw safonau darllen ac ysgrifennu lleiafrif o ddisgyblion yn y Gymraeg wedi datblygu'n briodol
- nid yw lleiafrif o ddisgyblion gallu uwch yn cyflawni cystal ag y dylent
- mae gordefnydd o daflenni gwaith yn cyfyngu ar allu llawer o ddisgyblion i ysgrifennu'n estynedig ac i ddatblygu'n ddysgwyr digon annibynnol
- nid yw disgyblion yn cael cyfleoedd digon cyflawn i ddefnyddio'r ystod lawn o fedrau rhifedd na thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) ar draws y cwricwlwm
- nid yw'r ysgol yn defnyddio systemau olrhain cynnydd disgyblion yn ddigon effeithiol er mwyn targedu ar gyfer gwelliant a sicrhau bod pawb yn cyrraedd eu potensial

Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn ddigonol oherwydd bod:

- ffocws cadarn ar godi safonau llafar Cymraeg y disgyblion yn dechrau cael effaith ar hyder a chyflawniad y disgyblion
- y pennaeth wedi meithrin ysbryd cydweithio cryf ymysg staff yr ysgol
- pob aelod staff yn ymwybodol o'u rolau a'u cyfrifoldebau a bod defnydd da o

arbenigedd gwahanol aelodau o staff

- trefniadau rheoli perfformiad yn eu lle sy'n gosod targedau perthnasol a phersonol er mwyn datblygu athrawon ymhellach
- arweinwyr wedi meithrin amrediad eang o bartneriaethau defnyddiol sy'n cyfrannu'n effeithiol tuag at wella ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer disgyblion

Fodd bynnag:

- nid yw'r arweinyddiaeth wedi sicrhau bod yr ysgol wedi ymateb i ofynion y fframwaith rhifedd yn ddigon da
- nid yw'r adroddiad hunanarfarnu yn adnabod yr agweddau sydd angen eu gwella yn ddigon trylwyr
- nid yw strategaethau gwella ansawdd yr ysgol yn ddigon effeithiol gan nad yw'r arweinyddiaeth wedi gweithredu'n llawn ar flaenoriaethau'r cynllun datblygu ysgol dros amser nac argymhellion yr arolygiad blaenorol

Argymhellion

A1 Gwella safonau darllen ac ysgrifennu disgyblion ar draws yr ysgol yn y Gymraeg

A2 Codi safonau ysgrifennu estynedig y disgyblion ar draws y cwricwlwm yn y ddwy iaith

A3 Sicrhau bod disgyblion mwy abl a thalentog yn cyflawni cystal ag y gallent

A4 Cryfhau'r cynllunio a'r ddarpariaeth a'r gyfer datblygu medrau rhifedd a TGCh disgyblion ar draws y cwricwlwm

A5 Sefydlu a defnyddio systemau olrhain cynnydd disgyblion yn effeithiol

A6 Sicrhau bod strategaethau gwella ansawdd yr ysgol yn effeithiol

Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol.

Prif ganfyddiadau

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Digonol

Safonau: Digonol

Mae medrau sylfaenol y disgyblion wrth iddyn nhw gychwyn yn yr ysgol yn amrywio. Fodd bynnag, yn ystod eu hamser yn yr ysgol mae llawer ohonynt yn gwneud cynnydd cadarn iawn. Maent yn gweithio'n bwrpasol yn y dosbarthiadau ac yn gwneud cynnydd priodol yn erbyn nodau'r gwersi. Mae llawer o ddisgyblion yn gallu galw i gof eu dysgu blaenorol yn effeithiol ac adeiladu arno. Defnyddia llawer o'r disgyblion eu medrau meddwl yn addas mewn ymchwiliadau gwyddonol neu wrth ddatrys problemau mathemategol. Ar y cyfan, mae'r disgyblion yn canolbwyntio'n dda ac yn cychwyn adnabod beth sydd angen ei wneud i wella eu gwaith. Mewn ychydig o wersi, fodd bynnag, nid yw disgyblion mwy abl a thalentog yn cyflawni gystal ag y gallent.

Mae medrau llafar llawer o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen yn datblygu'n fuan iawn. Maent yn ymateb yn briodol i ystod o gyfarwyddiadau a chwestiynau yn y Gymraeg drwy ddefnyddio patrymau brawddeg syml yn gywir. Erbyn diwedd y cyfnod, mae llawer yn sgwrsio'n hyderus am eu gwaith ac yn medru mynegi barn synhwyrol. Mae rhan fwyaf o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn gwrando'n ofalus ar gyflwyniadau gwersi a chyfraniadau disgyblion eraill. Maent yn canolbwyntio'n dda ac yn siarad am eu gwaith â hyder cynyddol gan ddefnyddio geirfa briodol a chywir. Er enghraifft, wrth drafod broliannau llyfrau a nodiant mathemategol. Erbyn diwedd y cyfnod, mae llawer o'r disgyblion yn cyrraedd safon dda o ddwyieithrwydd ac yn newid yn rhwydd o un iaith i'r llall wrth drafod eu gwaith.

Mae mwyafrif y disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn gwneud cynnydd priodol wrth ddysgu darllen. Mae llawer yn mwynhau darllen ac yn gwneud hyn yn gynyddol hyderus. Mae'r rhan fwyaf yn trafod eu hoff lyfrau'n frwdfrydig. Er hynny, mae diffyg rhuglder a mynegiant yn amharu ar safon darllen llawer o ddisgyblion. Yng nghyfnod allweddol 2, mae diffyg strategaethau gan y disgyblion i ddelio â geiriau anghyfarwydd yn llesteirio rhuglder yn eu darllen Cymraeg. Mae llawer o'r disgyblion yn darllen llyfrau Saesneg gyda chywirdeb a mynegiant cynyddol. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn trafod y prif ddigwyddiadau a chymeriadau yn eu llyfrau yn y ddwy iaith yn hyderus ac yn mwynhau trafod eu hoff awduron. Gall llawer chwilio am wybodaeth ffeithiol ar y we yn bwrpasol ar gyfer gwaith thema.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae mwyafrif y disgyblion yn ysgrifennu ystod gynyddol o frawddegau syml. Mae llawer o eiriau cyffredin wedi eu sillafu'n gywir a chydag atalnodi pwrpasol. Erbyn diwedd y cyfnod, maent yn defnyddio ansoddeiriau'n hyderus i gyfoethogi'r gwaith, er enghraifft yn eu gwaith wrth ddisgrifio môr ladron. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd priodol yn eu gallu i ysgrifennu mewn ffurfiau amrywiol yn Gymraeg. Fodd bynnag, mae ysgrifennu annibynnol mwyafrif y disgyblion yn y Gymraeg yn amlygu gwallau cystrawen a mynegiant. Mae llawer o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn datblygu eu gwaith ysgrifenedig yn llwyddiannus yn Saesneg gan ddefnyddio ystod amrywiol o batrymau brawddegau'n gywir ac yn dangos gafael gynyddol o eirfa a themau. Caiff

hyn ei ddatblygu ymhellach ar draws y cwricwlwm yn y ddwy iaith, er enghraifft wrth iddynt ysgrifennu am Gantre'r Gwaelod a Boddi Capel Celyn. Ar draws yr ysgol, mae safon cyflwyniad gwaith llawer o ddisgyblion yn anghyson ac anniben.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae medrau mathemategol y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n gadarn iawn. Gall y rhan fwyaf gasglu gwybodaeth yn llwyddiannus gan ei drosglwyddo'n effeithiol i ffurf graff. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn darllen, deall ac ysgrifennu rhifau hyd at 100 a mwy yn gywir. Maent yn defnyddio unedau safonol i fesur hyd gwrthrychau ac yn adnabod 'hanner awr wedi', 'chwarter wedi' a 'chwarter i' ar gloc analog.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datrys problemau sy'n ymwneud â pherimedr ac arwynebedd yn llwyddiannus. Maent yn adnabod a llunio onglau llym, aflem ac atblyg yn gywir. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf yn defnyddio geirfa fathemategol a nodiant sy'n briodol i'r dasg. Mae llawer yn gwirio canlyniadau i ystyried os ydynt yn rhesymol.

Fodd bynnag, ar draws yr ysgol nid yw'r disgyblion yn defnyddio'u medrau rhifedd yn ddigon cyson ar draws y cwricwlwm, nac i'r un safonâ'r hyn yn ei gwaith mathemateg fel pwnc. Yn yr un modd, nid yw disgyblion cyfnod allweddol 2 yn datblygu eu medrau TGCh o ran trin data na modelu ar draws y pynciau eraill nac o fewn y pwnc ei hun.

Mae nifer y disgyblion a asesir bob blwyddyn ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2 yn fach iawn. Mae hyn yn golygu nad yw cymariaethau ag ysgolion eraill yn ddibynadwy.

Am fod nifer y disgyblion mor fach, nid yw cymariaethau perfformiad bechgyn a merched na disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim yn ddibynadwy.

Mae bron pob disgybl sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn cyflawni'n dda ac yn gwneud cynnydd yn erbyn eu targedau personol.

Lles: Da

Mae bron pob disgybl yn ymwybodol o bwysigrwydd bwyta a byw'n iach. Maent yn elwa'n fawr trwy gymryd rhan yn rheolaidd mewn amryw o weithgareddau ymarfer corff ac mae bron pob un o'r disgyblion hyn yn rhedeg milltir y dydd ar dir yr ysgol. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar lefel ffitrwydd y disgyblion. Maent i gyd yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn ymddiried yn ei gilydd. Maent yn gwybod at bwy i droi am gymorth, os oes angen.

Mae ymddygiad bron pob disgybl yn dda iawn. Dangosant barch a gofal arbennig tuag at eraill ac mae llawer o'r disgyblion hyn yn ofalgar wrth ymdrin â phlant iau. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn cydweithio'n effeithiol ac mae llawer yn dangos lefel dda o ddyfalbarhad yn y gwersi. Mae gallu ychydig o ddisgyblion i weithio'n annibynnol yn parhau i ddatblygu. Trwy fod yn ymwybodol o'u targedau, mae llawer o'r disgyblion yn gwybod pa mor dda y maent yn cyflawni a beth sydd angen iddynt ei wneud i wella.

Mae'r disgyblion i gyd yn manteisio'n llawn ar gyfleoedd i fynegi barn ac ysgwyddo cyfrifoldebau yn sgil gwaith grwpiau fel y cyngor ysgol a'r cyngor eco. Maent yn dangos balchder amlwg yn eu cyfraniad i sawl agwedd o fywyd yr ysgol, fel trefnu gweithgareddau i godi arian i 'Operation Christmas Child' a 'Sport Relief'. Trwy weithgareddau cyson fel ailgylchu a chasglu sbwriel yn y pentref maent yn cyfrannu'n effeithiol at les yr ysgol gyfan a'r gymuned. O ganlyniad, maent yn datblygu hyder a brwdfrydedd yn eu gwaith a'u cyfrifoldebau.

Mae'r disgyblion yn chwarae rhan bwysig ym mywyd y gymuned, trwy'r carnifal, y gyngerdd ar gyfer yr henoed, ynghyd â'r gwasanaethau Nadolig a Diolchgarwch yn yr eglwys. O ganlyniad i'r ymrwymiad hwn, mae medrau cymdeithasol, diwylliannol a moesol disgyblion yn datblygu'n llwyddiannus iawn.

Mae bron pob disgybl yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon yn gyson. Mae presenoldeb disgyblion yn dda ac yn gosod yr ysgol yn y 25% uchaf o'i chymharu ag ysgolion tebyg ers y ddwy flynedd ddiwethaf.

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?	Digonol
--	----------------

Profiadau dysgu: Digonol

Mae'r ysgol yn darparu ystod o brofiadau dysgu cyffrous drwy themâu, fel 'Môr-ladron' a'r 60au, sy'n ennyn diddordeb y disgyblion yn dda. Mae'r cynllunio yn ymateb i ofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol, egwyddorion y Cyfnod Sylfaen a maes llafur addysg grefyddol yn briodol. Yn ddiweddar, mae'r athrawon wedi cychwyn cynllunio ar y cyd gydag athrawon dwy ysgol gyfagos er mwyn sicrhau bod dilyniant a pharhad llwyddiannus yn y ddarpariaeth.

Mae cyfleoedd buddiol i ddisgyblion fynychu cyrsiau preswyl a chydweithio'n gyson gyda disgyblion o ddwy ysgol gyfagos mewn gweithgareddau chwaraeon. Mae hyn yn cyfoethogi eu profiadau, yn magu medrau cymdeithasol da trwy eu galluogi i gydweithio fel aelod o dîm ac yn rhoi profiadau ymarferol i ddatblygu medrau meddwl trwy weithgareddau antur.

Mae'r ysgol yn rhoi cefnogaeth fuddiol i wella medrau rhifedd a llythrennedd grwpiau penodol o ddisgyblion. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar safonau'r disgyblion hynny. Fodd bynnag, nid yw'r ysgol yn cynllunio'n ddigon effeithiol ar gyfer datblygu medrau rhifedd na TGCh y disgyblion ar draws y cwricwlwm. O ganlyniad, prin iawn yw'r cyfleoedd i ddisgyblion gymhwyso eu medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm. Nid yw'r ddarpariaeth TGCh yn rhoi cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau trin data na modelu.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer hyrwyddo'r dimensiwn Cymreig yn effeithiol, gan sicrhau bod themâu'n cynnwys gwybodaeth am ddiwylliant a hanes Cymru. Er enghraifft, wrth astudio cerdd T. Llew Jones ar drychineb Aberfan gwahoddwyd ei wŷr i'r ysgol i sôn am ei dadcu a'i waith. Mae ymweld â pherfformiadau cwmni theatr drama mewn addysg yn cynyddu dealltwriaeth y disgyblion o hanes y Cymry yn llwyddiannus, er enghraifft hanes yr ymfudo i Batagonia.

Mae datblygiad cynaliadwy yn cael ei hyrwyddo'n llwyddiannus trwy waith y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco. Mae'r ysgol yn rhoi cyfle i'r pwyllgor eco arwain gweithgareddau casglu sbwriel o amgylch yr ysgol a'r pentref, a mentrau ailgylchu. Mae'r wythnos fasnach deg flynyddol yn sicrhau bod disgyblion yn deall pwysigrwydd chwarae teg i weithwyr mewn gwledydd tramor. Fodd bynnag, nid yw'r cynllunio ar gyfer datblygu dealltwriaeth disgyblion o ddinasyddiaeth fyd eang wedi ei sefydlu yn ddigon effeithiol.

Addysgu: Digonol

Mae'r athrawon yn creu awyrgylch gweithgar. Mae'r berthynas waith effeithiol rhyngddynt a'r disgyblion yn cyfrannu at ddysgu llwyddiannus. Maent yn rheoli ymddygiad y disgyblion yn fedrus, yn modelu iaith dda ac mae ganddynt wybodaeth bynciol gadarn iawn. Yn y gwersi, mae'r cyflwyniadau'n fywiog a brwdfrydig gyda'r athrawon yn cynnig amrywiaeth dda o weithgareddau sy'n ennyn diddordeb y disgyblion. Ar y cyfan, mae'r athrawon yn cynllunio'n effeithiol ar gyfer anghenion disgyblion o wahanol allu. Maent yn esbonio tasgau'n glir ac yn holi'n bwrpasol er mwyn sicrhau dealltwriaeth gadarn pob disgybl. Mae'r staff yn paratoi a chreu deunyddiau sy'n ysgogi'r disgyblion yn dda. Enghraifft o hyn yw'r casgliad o gloriannau llyfrau a broliannau.

Fodd bynnag, nid yw'r tasgau'n herio disgyblion o allu uwch yn ddigon cyson. Prin iawn yw'r cyfleoedd y mae'r athrawon yn eu cynnig i'r disgyblion ddefnyddio eu medrau rhifedd a'r ystod lawn o fedrau TGCh ar draws y cwricwlwm. Mae gordefnydd o daflenni gwaith yn cyfyngu ar gyfleoedd i ddisgyblion ysgrifennu'n estynedig.

Defnyddia'r athrawon y staff cymorth dysgu yn effeithiol. Mae'r cydweithio hwn yn un o gryfderau'r ysgol gan ei fod yn sicrhau bod disgyblion sydd angen cymorth yn gwneud cynnydd da. Mewn cyfnod o gryn newid ymhlith yr athrawon mae'r cynorthwyr wedi cynnig elfen o ddilyniant a chysondeb.

Mae'r athrawon yn cynnig adborth llafar defnyddiol yn ystod gwersi ac yn marcio gwaith disgyblion yn rheolaidd, gan gynnig sylwadau adeiladol ar sut i wella'r gwaith. Mae gweithdrefnau diweddar yn eu lle i ddarparu cyfleoedd i'r disgyblion arfarnu eu gwaith eu hunain, a chyfoedion, ond nid ydynt eto wedi'u gwreiddio'n llawn yn y dosbarthiadau.

Mae athrawon yn adnabod a deall anghenion y disgyblion yn dda. Fodd bynnag, nid ydynt bob amser yn defnyddio'r wybodaeth i osod targedau digon heriol ar gyfer unigolion. Mae'r ysgol wedi gosod gweithdrefnau asesu newydd yn eu lle gan gynnwys y defnydd o brofion safonol ac asesiadau parhaus. Mae'r staff wedi cychwyn defnyddio systemau olrhain cynnydd disgyblion er mwyn adnabod perfformiad disgyblion ar gyfer gwelliant a sicrhau bod pawb yn cyrraedd eu potensial. Fodd bynnag, mae hyn yn ei ddyddiau cynnar ac nid yw'n glir eto pa mor effeithiol yw'r trefniadau newydd.

Mae adroddiadau blynyddol i rieni yn cynnwys gwybodaeth glir am gynnydd pob disgybl.

Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar lle mae'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel. Trwy eu gweithdrefnau a pholisïau, mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad cymdeithasol, moesol, ysbrydol a diwylliannol y disgyblion yn effeithiol. Mae'r sesiynau addoli ar y cyd yn atgyfnerthu gwerthoedd yn addas ac yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol trwy gyfleoedd buddiol i fyfrio.

Mae gan yr ysgol drefniadau effeithiol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Mae'r disgyblion yn cael amrywiaeth gwerthfawr o gyfleoedd i gynyddu lefelau eu ffithrwydd ac iechyd trwy weithgareddau corfforol a chlwb chwaraeon ar ôl ysgol.

Mae'r staff yn adnabod yn gynnar y disgyblion hynny sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Maent cynnig cefnogaeth effeithiol drwy grwpiau ymyrraeth gyda sylw penodol at wella medrau llythrennedd, rhifedd, ac anghenion emosiynol. Mae cynlluniau addysg unigol y disgyblion yn cynnwys targedau clir a chyraeddadwy sy'n cysylltu'n bwrpasol â'u targedau dosbarth.

Gwneir defnydd effeithiol o wasanaethau arbenigol i gefnogi disgyblion unigol, fel y seicolegydd addysg a'r gwasanaeth iaith a lleferydd. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar hyder a chyflawniadau'r disgyblion.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Yr amgylchedd dysgu: Da

Mae ethos hapus, cartrefol a chroesawgar i'r ysgol, lle mae'r oedolion a'r disgyblion yn ymdrin â'i gilydd gyda pharch a gofal. Mae gan bob disgybl fynediad llawn i'r cwricwlwm. Mae polisïau a gweithdrefnau clir yn sicrhau cyfle cyfartal i bawb ac yn hybu cydraddoldeb a dealltwriaeth o amrywiaeth a thegwch yn llwyddiannus. Mae defnydd pwrpasol o adnoddau'r gymuned leol i ychwanegu yn llwyddiannus at brofiadau dysgu'r disgyblion.

Mae adeiladau'r ysgol, ar y cyfan, mewn cyflwr da a gwneir defnydd pwrpasol o'r ardal allanol ar gyfer hyrwyddo egwyddorion y Cyfnod Sylfaen. Mae'r ardaloedd anturus, fel y wal ddringo, yn annog y disgyblion i fentro a chydweithio. Mae'r ardal natur yn ysgogi'r disgyblion i ymholi ynglŷn â'r amgylchfyd. Tu mewn i'r ysgol, mae'r adeilad yn ddeniadol ac yn darparu amgylchedd dysgu pwrpasol i ddisgyblion. Mae arddangosfeydd yn dathlu gwaith a gweithgareddau'r disgyblion yn llwyddiannus. Enghreifftiau o hyn yw'r gweithgareddau yn ymwneud â chystadleuaeth pêl droed Ewropeaidd, ymweliad â chanolfan gweithgaredd awyr agored a gwaith y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco.

Ar y cyfan, mae cyflenwad priodol o adnoddau ar gyfer addysgu a dysgu, ac ar gyfer datblygu medrau TGCh disgyblion. Fodd bynnag, nid yw'r dewis o lyfrau Cymraeg gystal â'r Saesneg.

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?	Digonol
--	----------------

Arweinyddiaeth: Digonol

Mewn cyfnod byr ers ei phenodiad, mae'r pennaeth wedi meithrin ysbryd o gydweithio cryf ymysg staff yr ysgol. Mae wedi cychwyn cael athrawon y tair ysgol fechan leol i gydweithio er mwyn cynnig cyfleoedd ehangach i'r disgyblion. Yn ogystal, mae wedi sicrhau systemau cyfathrebu effeithiol gyda'r rhieni. Mae gweithdrefnau priodol ar waith i gychwyn codi safonau dysgu ac addysgu. Mae wedi dechrau ffurfioli nifer o systemau, fel gweithdrefnau asesu ac olrhain cynnydd disgyblion. Fodd bynnag, nid yw'r ystod o weithgareddau hyn wedi cael digon o amser i wreiddio a chael effaith arwyddocaol hyd yma.

Mae trefniadau rheoli perfformiad effeithiol yn eu lle sy'n gosod targedau perthnasol er mwyn datblygu athrawon ymhellach a chefnogi disgyblion. Mae pob aelod staff yn ymwybodol o'u rolau a'u cyfrifoldebau ac maent yn defnyddio cryfderau a chymwysterau unigol i sicrhau'r effaith fwyaf. Er enghraifft, o ran gweithgareddau ffitrwydd ac arbenigedd mathemateg.

Mae'r ysgol yn ymateb yn llwyddiannus i rai blaenoriaethau lleol a chenedlaethol, er enghraifft wrth ddatblygu'r siarter iaith a gwella presenoldeb. Fodd bynnag, nid yw'r arweinyddiaeth wedi sicrhau bod disgwyliaidau'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd yn cael eu diwallu'n ddigon effeithiol.

Mae'r corff llywodraethol yn ymroddgar a chefnogol iawn i'r ysgol ac mae aelodau yn ymweld â dosbarthiadau a'r ysgol gyfan yn rheolaidd. Mae ganddynt ddealltwriaeth gynyddol o'r cryfderau a'r meysydd i'w gwella yn dilyn ymweliadau adeiladol. Mae hyn yn dechrau datblygu eu hymwybyddiaeth o bob agwedd o fywyd yr ysgol yn llwyddiannus. O ganlyniad, mae rôl strategol y llywodraethwyr yn datblygu'n fwriadus ac maent yn fwy parod i herio'r ysgol am ei pherfformiad. Fodd bynnag, nid oes ganddynt rôl ddigon cadarn yn y broses o lunio adroddiad hunanarfarnu, o gosod targedau na chreu cynllun datblygu ysgol.

Gwella ansawdd: Digonol

Yn ddiweddar, mae'r pennaeth newydd wedi mynd ati i sicrhau bod ganddi ddealltwriaeth o gryfderau a gwendidau'r ysgol. Mae'r adroddiad hunanarfarnu yn nodi cryfderau'r ysgol yn glir a llawer o'r manau sydd angen eu datblygu ymhellach. Defnyddir ystod eang o dystiolaeth i gefnogi barnau'r adroddiad, gan gynnwys edrych ar ddata, craffu ar waith disgyblion, monitro'r addysgu, yn ogystal â chasglu barn rhieni a disgyblion. Fodd bynnag, mae'r adroddiad yn llawer rhy ddisgrifiadol ac nid yw'n rhoi darlun digon arfarnol o sefyllfa bresennol yr ysgol. O ganlyniad, nid yw arweinwyr wedi adnabod y materion sydd angen sylw o ran arweinyddiaeth a chynllunio ar gyfer gwella ansawdd.

Mae'r cynllun datblygu ysgol yn fanwl ac yn nodi targedau perthnasol a phenodol ar gyfer datblygu blaenoriaethau a sefydlu prosesau newydd. Mae cyswllt amlwg rhwng deilliannau'r adroddiad hunanarfarnu a blaenoriaethau'r cynllun datblygu ysgol. Mae'r cynllun yn cynnwys camau gweithredu manwl, a meini prawf llwyddiant mesuradwy sy'n canolbwyntio'n dda ar ddeilliannau disgyblion.

Fodd bynnag, nid yw strategaethau gwella ansawdd yr ysgol wedi bod yn ddigon effeithiol. Nid yw'r arweinyddiaeth wedi gweithredu'n llawn ar flaenoriaethau'r cynllun datblygu ysgol dros amser, nac argymhellion yr arolygiad blaenorol. O ganlyniad, nid ydynt wedi sicrhau'n llawn y gwelliannau angenrheidiol sydd eu hangen i godi safonau a gwella'r ddarpariaeth a'r arweinyddiaeth.

Gweithio mewn partneriaeth: Da

Mae gan yr ysgol ystod o bartneriaethau llwyddiannus sydd yn ymestyn profiadau dysgu'r disgyblion yn llwyddiannus. Maent yn cael effaith gadarnhaol ar brofiadau a lles y disgyblion.

Mae perthynas gynhyrchiol rhwng yr ysgol a'r rhieni. Mae'r rhieni yn gefnogol iawn i'r ysgol, ac yn cyfrannu arian sylweddol a'u hamser yn rheolaidd i sicrhau profiadau buddiol i'r disgyblion a darparu adnoddau defnyddiol. Enghraifft o hyn yw'r ddarpariaeth y tu allan ar gyfer astudio cynefinoedd. Mae ffocws y pennaeth ar hybu diwylliant agored a chydweithredol yn llwyddo i sicrhau ymrwymiad a chefnogaeth gyson rhieni. Mae'r cylchlythyron, a'r tudalennau ar wefan gymdeithasol gaeedig yr ysgol, yn gymorth i sicrhau bod rhieni'n derbyn gwybodaeth gyfredol er mwyn gallu cefnogi dysgu eu plant.

Mae cysylltiadau amrywiol a chadarn â'r gymuned leol. Mae ymweliadau niferus â'r gymuned, a'r ymgysylltu effeithiol â thrigolion lleol, yn ehangu profiadau'r disgyblion yn sylweddol. Er enghraifft, mae'r disgyblion wedi cydweithio â Chyngor Cymuned Meidrim i gynllunio parc chwarae newydd yn y pentref a dewis y cais llwyddiannus. Mae'r profiadau hyn yn hyrwyddo ymdeimlad y disgyblion o bwysigrwydd cymuned a'u balchder at eu hardal leol yn briodol.

Mae gan yr ysgol ddiwylliant iach o gydweithio effeithiol gydag ysgolion eraill o fewn y ffederasiwn. Mae hyn yn rhoi cyfleoedd buddiol i godi safonau ac ehangu profiadau disgyblion. Er enghraifft, y cydweithio cadarnhaol rhwng athrawon y Cyfnod Sylfaen i godi safonau llythrennedd, ac yn arbennig medrau llafar disgyblion. Mae cyfleoedd wythnosol buddiol i gydweithio ag ysgolion lleol ar gyfer gweithgareddau chwaraeon. Mae hyn yn datblygu gallu'r disgyblion i weithio mewn tîm, cymdeithasu â chyfoedion a medrau pêl ac athletau yn effeithiol.

Mae'r athrawon yn cynnal cyfarfodydd safoni a chymedroli effeithiol gydag ysgolion cynradd eraill a'r ysgol uwchradd. Mae'r enghreifftiau defnyddiol o waith disgyblion o'r cyfarfodydd hyn yn darlunio lefelau cyrhaeddiad yn gywir ac yn datblygu dealltwriaeth y staff o'u cywirdeb wrth asesu. Mae perthynas dda iawn rhwng yr ysgol a'r cylch meithrin er mwyn paratoi darpar ddisgyblion yn dda ar gyfer dechrau yn yr ysgol. Mae cynlluniau pontio niferus yn hyrwyddo trosglwyddo llwyddiannus i'r ysgol uwchradd.

Rheoli adnoddau: Digonol

Mae arweinwyr, ar y cyfan, yn rheoli adnoddau yn effeithiol i gefnogi a gwella dysgu'r disgyblion. Mae gan yr ysgol lefel briodol o athrawon cymwys sy'n ymroddgar iawn ac yn cydweithio'n dda i gyflwyno'r cwricwlwm diddorol. Mae cymorthyddion yn cefnogi'r athrawon yn effeithiol iawn, yn modelu iaith raenus ac yn gwneud cyfraniad

gwerthfawr i ddeilliannau disgyblion ar draws yr ysgol. Mae'r holl staff yn derbyn cefnogaeth briodol drwy drefniadau datblygiad proffesiynol sy'n dylanwadu'n llwyddiannus ar gyflawniad disgyblion.

Mae'r trefniadau ar gyfer cynllunio, paratoi ac asesu yn briodol, gan gynnig cyfleoedd defnyddiol i athrawon gydweithio. Mae'r ysgol hefyd yn meithrin cydweithio effeithiol ag ysgolion eraill y ffederasiwn. Trwy hyn, mae cyfleoedd i rannu profiadau ac arfer dda i wella'r ddarpariaeth a chodi safonau, yn enwedig wrth wella gwaith llafar yn y Cyfnod Sylfaen.

Mae'r amrediad da o adnoddau safonol yn cael eu rheoli'n effeithiol ac mae'r Cyfnod Sylfaen yn elwa'n fawr o'r amgylchedd allanol ysgogol. Mae'r pennaeth, gyda chymorth y llywodraethwyr ac arweiniad gan yr awdurdod addysg, yn monitro ac yn rheoli'r cyllid yn ofalus gan sicrhau bod cysylltiad agos â blaenoriaethau'r cynllun datblygu ysgol. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd effeithiol o'r rhoddion a'r cyfraniadau helaeth gan rieni a'r gymuned i brynu adnoddau i gefnogi disgyblion, er enghraifft llechi cyfrifiadurol.

O ystyried safonau disgyblion a'r ddarpariaeth, mae'r ysgol yn cynnig gwerth digonol am arian.

Atodiad 1: Sylwadau ar ddata perfformiad

Mae llawer o garfanau bach iawn mewn llawer o'r blynyddoedd o ddata perfformiad y Cyfnod Sylfaen ar gyfer yr ysgol hon. Mewn achos felly, nid ydym yn cynnwys tabl data perfformiad.

6692037 - Ysgol Gynradd Meidrim

Nifer y disgyblion ar y gofrestr 20
 Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd 7.1
 Grŵp PYD 1 (PYD<=8%)

Cyfnod allweddol 2

	2012	2013	2014	2015
Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 6	5	7	*	*
Yn cyflawni dangosydd pynciau craidd (DPC) (%)	100.0	85.7	*	*
Chwarterl meincnod	1	3	*	*
Saesneg				
Nifer y disgyblion yng ngharfan	5	7	*	*
Yn cyflawni lefel 4+ (%)	100.0	85.7	*	*
Chwarterl meincnod	1	4	*	*
Yn cyflawni lefel 5+ (%)	*	*	*	*
Chwarterl meincnod	*	*	*	*
Cymraeg iaith gyntaf				
Nifer y disgyblion yng ngharfan	5	7	*	*
Yn cyflawni lefel 4+ (%)	100.0	71.4	*	*
Chwarterl meincnod	1	4	*	*
Yn cyflawni lefel 5+ (%)	*	*	*	*
Chwarterl meincnod	*	*	*	*
Mathemateg				
Nifer y disgyblion yng ngharfan	5	7	*	*
Yn cyflawni lefel 4+ (%)	100.0	100.0	*	*
Chwarterl meincnod	1	1	*	*
Yn cyflawni lefel 5+ (%)	*	*	*	*
Chwarterl meincnod	*	*	*	*
Gwyddoniaeth				
Nifer y disgyblion yng ngharfan	5	7	*	*
Yn cyflawni lefel 4+ (%)	100.0	100.0	*	*
Chwarterl meincnod	1	1	*	*
Yn cyflawni lefel 5+ (%)	*	*	*	*
Chwarterl meincnod	*	*	*	*

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iaith gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwarterl meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae ysgol yn chwarterl meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwarterl meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.

<http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym>

Atodiad 2

Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

	Number of responses Nifer o ymatebion	Agree Cytuno	Disagree Anghytuno	
I feel safe in my school.	12	12 100%	0 0%	Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol.
		98%	2%	
The school deals well with any bullying.	12	12 100%	0 0%	Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio.
		92%	8%	
I know who to talk to if I am worried or upset.	12	12 100%	0 0%	Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio.
		97%	3%	
The school teaches me how to keep healthy	12	12 100%	0 0%	Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach.
		97%	3%	
There are lots of chances at school for me to get regular exercise.	12	12 100%	0 0%	Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd.
		96%	4%	
I am doing well at school	12	12 100%	0 0%	Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol.
		96%	4%	
The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress.	12	12 100%	0 0%	Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd.
		99%	1%	
I know what to do and who to ask if I find my work hard.	12	12 100%	0 0%	Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd.
		98%	2%	
My homework helps me to understand and improve my work in school.	12	11 92%	1 8%	Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol.
		91%	9%	
I have enough books, equipment, and computers to do my work.	12	12 100%	0 0%	Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith.
		95%	5%	
Other children behave well and I can get my work done.	12	10 83%	2 17%	Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith.
		77%	23%	
Nearly all children behave well at playtime and lunch time	12	11 92%	1 8%	Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio.
		84%	16%	

Ymateb i'r holiadur i rieni

Derbyniwyd llai na 10 ymateb. Ni chaiff unrhyw ddata ei ddangos.

Atodiad 3

Y tîm arolygu

Maldwyn Pryse	Arolygydd Cofnodol
Hazel Hughes	Arolygydd Tîm
Michaela Leyshon	Arolygydd Lleyg
Vicky Griffiths	Enwebai

Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

Blwyddyn	Meithrin	Derbyn	B1	B2	B3	B4	B5	B6
Oedrannau	3-4	4-5	5-6	6-7	7-8	8-9	9-10	10-11

Cyfnod uwchradd:

Blwyddyn	B7	B8	B9	B10	B11	B12	B13
Oedrannau	11-12	12-13	13-14	14-15	15-16	16-17	17-18

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

Cyfnod Sylfaen	Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2
Cyfnod allweddol 2	Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6
Cyfnod allweddol 3	Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9
Cyfnod allweddol 4	Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11

Rhestr termau – Cynradd

Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwylidig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwylidig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

Y dangosydd pwnc craidd (DPC)

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwylidig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwylidig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

Setiau Data Craidd Cymru Gyfan

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol. Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarterli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.